

PHILLIPS, JAMES (1847 - 1907), hanesydd sir Benfro

Enw: James Phillips

Dyddiad geni: 1847

Dyddiad marw: 1907

Rhiant: James Phillips

Rhyw: Gwryw

Galwedigaeth: hanesydd sir Benfro

Maes gweithgaredd: Crefydd; Addysg; Hanes a Diwylliant; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu

Awdur: Bertie George Charles

Ganwyd 26 Mawrth 1847 yn Hwlfordd. Crynwyr oedd tylwyth ei dad, James Phillips, gwerthwr nwyddau haearn a maer y dref yn 1871. Addysgwyd ef mewn ysgol breifat ar S. Thomas's Green yn Hwlfordd, ac er bod atal dweud arno daeth yn bregethwr cynorthwyl gyda'r Wesleaid. Yn ddiweddar yn ei oes aeth i goleg yr Annibynwyr ym Mryste (dywed [T. Witton Davies](#) iddo fod dan ei addysg yntau yng ngholeg y Bedyddwyr yn Hwlfordd), ac yn 1889 fe'i hordeiniwyd yn weinidog y Tabernacl, eglwys yr Annibynwyr yn Little Haven, Sir Benfro, lle y bu'n gwasnaethu hyd ei farw yn ei gartref yn Hwlfordd ar 20 Tachwedd 1907. Rhyddfrydwr ydoedd, ac ymddiddorai mewn addysg leol. Bu'n gadeirydd Bwrdd Ysgol Hwlfordd, ac ar ôl 1903 yn gadeirydd rheolwyr yr ysgolion. Yr oedd yn un o lywodraethwyr yr ysgol ramadeg ac yn is-gadeirydd ysgol uwchradd Tasker. Yr oedd hefyd yn aelod o bwyllgor addysg sir Benfro o'r cychwyn ac yn henadur o'r cyngor sir. Fel awdur *The History of Pembrokeshire*, a gyhoeddwyd yn 1909 ar ôl ei farw, yr adwaenir ef orau. Ysgrifennodd nifer o erthyglau ar hanes Hwlfordd, yn bennaf yn ystod oes Elisabeth (*Archæologia Cambrensis*, 1895, 81-95; 1896, 193-211; 1897, 41-4, 308-23; 1898, 298-311; 1899, 269-82; 1904, 253-74), ac ar gofrestri plwyf Eglwys Fair, Hwlfordd (*Archæologia Cambrensis*, 1902, 115-27; 1903, 298-318; 1905, 38-61).

Awdur

Dr Bertie George Charles, (1908 - 2000)

Ffynonellau

The Congregational Year Book, 1908, 193-4

Pembrokeshire County Guardian, 22 a 29 Tachwedd 1907

South Wales Daily News, 22 Tachwedd 1907

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q20748843](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Evch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

